Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Hawdd ei ddarllen: Yr Hyn y Gwnaethoch ei Ddweud Wrthym Am Ein Strategaeth (2026–2030)

Beth yw hyn?

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ar draws Cymru.

Rydyn ni'n gweithio ar **ein Strategaeth** newydd ar gyfer 2026–2030.

Cynllun yw **strategaeth**. Mae'n esbonio beth rydyn ni am ei wneud a sut y byddwn ni'n gwneud hynny.

01 Rhagfyr

Dechreuodd yr arolwg i gasglu eich barn **ddydd Llun 8 Medi 202**5 a daeth i ben ddydd **Llun 1 Rhagfyr 2025**.

Geiriau Anodd

Bydd geiriau anodd yn cael eu huwcholeuo yn las, a bydd disgrifiad mewn blwch o dan y frawddeg. Bydd yr holl eiriau anodd hefyd yn cael eu hesbonio ar dudalen 19.

Y gwaith hwn

- Gwnaethon ni ofyn i bobl ar draws Cymru ddweud eu barn am ofal iechyd.

- Cafodd y gwaith hwn ei wneud dros gyfnod o 12 wythnos.

- Roedden ni am glywed eich profiadau a'ch syniadau.

- Cymerodd **2,353** o bobl ran.
- Llenwodd **1,384** o bobl yr arolwg cyfan.

Pwy gymerodd ran



Roedd y bobl a rannodd eu barn yn cynnwys:

- cleifion
- gofalwyr di-dâl
- pobl sy'n gweithio ym maes gofal iechyd
- pobl sydd wedi ymddeol
- staff deintyddol
- staff cartrefi gofal
- cynghorau lleol
- grwpiau sy'n llefaru ar ran eraill (**sefydliadau eirioli**)
- pobl anabl
- byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG

Mae **sefydliadau eirioli** yn grwpiau sy'n helpu pobl i ddweud beth sydd ei angen arnyn nhw.

Sut y gwnaethon ni wrando

Gwnaethon ni ddefnyddio ffyrdd gwahanol i glywed gennych chi:

- arolwg ar-lein yn Gymraeg a Saesneg



- digwyddiadau er mwyn cyfarfod â phobl wyneb yn wyneb



- cylchlythyrau drwy e-bost

- y cyfryngau cymdeithasol

- trafodaethau grŵp gydag **Age Cymru**, **Triniaeth Deg** i **Fenywod Cymru**, a'r **Birth Partner Project** (Mae'r grwpiau hyn yn ein helpu i glywed gan bobl hŷn, menywod, mamau, a theuluoedd)

Ein Diben

Ein diben yw'r rheswm pam ein bod yn bodoli.

- Rydyn ni'n gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ar draws Cymru.

- Roedd **924 o bobl** yn cytuno â'r diben hwn.

- Dywedodd **813 o bobl** nad oedd unrhyw beth ar goll neu'n aneglur.



Ein Gweledigaeth

Gweledigaeth yw'r hyn rydyn ni am ei weld yn y dyfodol.

- Rydym am ddyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Eich barn chi ar ein 4 blaenoriaeth



Rydyn ni wedi ysgrifennu pedwar peth pwysig ar gyfer ein strategaeth. Dyma ein **blaenoriaethau**.

Roedd pobl yn cytuno â'n blaenoriaethau:

1. Rhoi Pobl yn Gyntaf – roedd 81% yn cytuno

2. Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – roedd 81% yn cytuno

3. Buddsoddi yn Ein Pobl – roedd 82% yn cytuno

4. Cymryd Camau sydd o Bwys – roedd 88% yn cytuno

Yr Hyn sydd Bwysicaf i Chi

Mae'r prif bethau y dywedoch chi wrthym wedi'u nodi isod.



1. Mynediad at Wasanaethau

Dywedoch chi wrthym:

- Mae'n anodd cael apwyntiad gyda'r meddyg teulu o hyd



- Mae pobl yn aros yn rhy hir am brofion ac **atgyfeiriadau**.

Atgyfeiriad yw pan fydd meddyg neu weithiwr iechyd yn eich anfon i weld gweithiwr iechyd proffesiynol arall i gael mwy o help, profion, neu driniaeth.

- Mae ardaloedd gwledig yn wynebu mwy o broblemau, fel amseroedd teithio hir.

- Mae trafnidiaeth yn rhwystr mawr i bobl hŷn a phobl agored i niwed.



- Pan fo meddygon teulu yn rhy brysur, mae pobl yn defnyddio gofal brys gan nad oes unrhyw beth arall ar gael.

2. **Ansawdd a Diogelwch Gofal**

Gwnaethoch chi ddweud y canlynol:

- Nid yw gofal yr un fath ym mhob ardal.



- Mae rhai gwasanaethau yn peri pryder i bobl, fel gofal brys, gofal mamolaeth, **wardiau cleifion mewnol**, ac iechyd meddwl.

Mae **gofal cleifion mewnol** yn golygu'r gofal a gewch pan fyddwch chi'n aros dros nos mewn ysbyty.

- Dydy rhai pobl ddim yn cael help i reoli poen.



- Dydy rhai pobl ddim yn cael **gofal dilynol**.

Mae **gofal dilynol** yn golygu'r gofal a gewch ar ôl eich triniaeth gyntaf.

- Mae prinder staff yn ei gwneud hi'n anodd rhoi gofal da.

- Mae staff wedi blino.

3. **Cyfathrebu a Gweithio Gyda'n Gilydd**

Dywedoch chi wrthym:

- Dydy gwybodaeth am gleifion ddim yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng gwasanaethau.

- Does dim cofnod electronig unigol ar gyfer cleifion.

- Mae pobl yn cael cyngor gwahanol gan feddygon teulu, ysbytai, ac wrth ffonio 111.

- Mae teuluoedd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu cynnwys ac maen nhw'n ansicr o ran beth fydd yn digwydd nesaf.

- Mae pobl am gael gwybodaeth glir am eu gofal a'u hawliau.

4. Cynhwysiant, Y Gymraeg, a Thegwch

Gwnaethoch chi ddweud y canlynol:



- Mae'n rhaid sicrhau ei bod hi'n haws cael gwasanaethau Cymraeg.

- Does dim digon o staff dwyieithog.



- Dydy rhai pobl ddim yn gallu mynd ar-lein (**allgáu digidol**).

Mae **allgáu digidol** yn digwydd pan na fydd pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein yn hawdd, er enghraifft gan nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd neu ddyfais.

- Does dim digon o ddehonglwyr.

Mae **dehonglydd** yn berson sy'n helpu pobl sy'n siarad ieithoedd gwahanol i ddeall ei gilydd.

- Dydy rhai grwpiau ethnig lleiafrifol ddim yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

- Mae pobl am gael gofal sy'n parchu diwylliannau gwahanol.

5. Dulliau Gweithio Cydgysylltiedig



Dywedoch chi wrthym:

- Mae gwasanaethau yn teimlo fel gwasanaethau ar wahân heb gysylltiad.

- Mae hyn yn effeithio ar ofal pan fydd pobl yn gadael yr ysbyty.

- Mae pobl am i grwpiau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol weithio gyda'i gilydd yn well.

6. Ymddiriedaeth, **Atebolrwydd** ac Ymgysylltu

Mae **atebolrwydd** yn golygu rhywun yn cymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd.

Dywedoch chi wrthym:

- Mae pobl yn ansicr a yw eu hadborth yn arwain at newidiadau.

- Mae pobl am gael gonestrwydd a diweddariadau clir.

- Mae pobl am i rywun gymryd cyfrifoldeb pan fydd pethau'n mynd o chwith.

- Yn fwy na dim, mae pobl am gael eu clywed a'u trin â pharch.

7. Llesiant y Gweithlu

Dywedodd y staff wrthym:

- Dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

- Mae rhewi'r broses recriwtio yn gwneud gwaith yn anoddach.

- Maen nhw am gael cymorth gyda'u llesiant.

- Maen nhw am gael cyflogau teg.

- Mae gweithle cadarnhaol yn helpu staff i aros a gwneud eu gorau.

8. Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod

Dywedodd pobl wrthym:

- does dim digon o gymorth iechyd meddwl



- Mae'r prosesau ar gyfer **camau dilynol** yn wael.

Mae **gofal dilynol** yn golygu'r gofal a gewch ar ôl eich triniaeth gyntaf.

- Mae sgil-effeithiau meddyginiaethau yn peri pryder i bobl.



- Mae angen mwy o ffocws ar iechyd menywod, gan gynnwys y menopos ac **endometriosis**.

Mae **endometriosis** yn gyflwr iechyd lle mae meinweoedd fel leinin y groth yn tyfu y tu allan i'r groth. Gall achosi poen.

- Mae angen esbonio a pharchu prosesau **cydsynio** yn well.



Mae **cydsynio** yn golygu dweud "ie" i driniaeth neu ofal ar ôl i rywun roi esboniad i chi mewn ffordd rydych chi'n ei deall.

9. Cyllid ac Adnoddau

Dywedodd pobl wrthym:

- Does dim gan wasanaethau ddigon o arian i wneud eu gwaith yn dda.

- Dylai cyllid gefnogi gofal mewn cymunedau, nid dim ond mewn ysbytai.

- Dylai arian ddilyn y claf a beth sydd ei angen arno.

Y Camau Nesaf – Beth y Byddwn Ni'n ei Wneud

- Byddwn ni'n defnyddio eich adborth i lywio ein prif flaenoriaethau, fel mynediad, cyfathrebu, diogelwch, **cynhwysiant**, a llesiant staff

Mae **cynhwysiant** yn golygu gwneud yn siŵr y gall pawb gymryd rhan.

- Byddwn ni'n defnyddio eich syniadau i wella'r ffordd rydyn ni'n casglu gwybodaeth ac yn gwrando ar brofiadau cleifion.

- Byddwn ni hefyd yn gweithio'n well gyda'r GIG a **darparwyr annibynnol.**

Mae **darparwyr annibynnol** yn wasanaethau gofal iechyd nad ydyn nhw'n rhan o'r GIG.



- Byddwn ni'n rhannu'r canfyddiadau hyn â'r byrddau iechyd a phartneriaid.

- Bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi ar 1 Ebrill 2026.

Geiriau anodd

Efallai y bydd rhai geiriau yn y ddogfen hon yn anodd i'w deall. Mae'r dudalen hon yn egluro beth mae'r geiriau hynny'n ei olygu mewn ffordd syml.

Strategaeth

Cynllun yw **strategaeth**. Mae'n esbonio beth rydyn ni am ei wneud a sut y byddwn ni'n gwneud hynny.

Sefydliadau Eirioli

Mae **sefydliadau eirioli** yn grwpiau sy'n helpu pobl i ddweud beth sydd ei angen arnyn nhw.

Ein diben

Ein diben yw'r rheswm pam ein bod yn bodoli.



Gweledigaeth

Gweledigaeth yw'r hyn rydyn ni am ei weld yn y dyfodol.

Blaenoriaethau

Rydyn ni wedi ysgrifennu pedwar peth pwysig ar gyfer ein strategaeth. Dyma **ein blaenoriaethau**.



Atgyfeiriad

Atgyfeiriad yw pan fydd meddyg neu weithiwr iechyd yn eich anfon i weld gweithiwr iechyd proffesiynol arall i gael mwy o help, profion, neu driniaeth.

Cleifion mewnol

Mae **gofal cleifion mewnol** yn golygu'r gofal a gewch pan fyddwch chi'n aros dros nos mewn ysbyty.



Gofal dilynol

Mae **gofal dilynol** yn golygu'r gofal a gewch ar ôl eich triniaeth gyntaf.



Allgáu digidol

Mae **allgáu digidol** yn digwydd pan na fydd pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein yn hawdd, er enghraifft gan nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd neu ddyfais.

Dehonglydd

Mae **dehonglydd** yn berson sy'n helpu pobl sy'n siarad ieithoedd gwahanol i ddeall ei gilydd.

Atebolrwydd

Mae **atebolrwydd** yn golygu rhywun yn cymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd.

Endometriosis



Mae **endometriosis** yn gyflwr iechyd lle mae meinweoedd fel leinin y groth yn tyfu y tu allan i'r groth. Gall achosi poen.

Cydsynio



Mae **cydsynio** yn golygu dweud "ie" i driniaeth neu ofal ar ôl i rywun roi esboniad i chi mewn ffordd rydych chi'n ei deall.

cynhwysiant

Mae **cynhwysiant** yn golygu gwneud yn siŵr y gall pawb gymryd rhan.

Darparwyr annibynnol

Mae **darparwyr annibynnol** yn wasanaethau gofal iechyd nad ydyn nhw'n rhan o'r GIG.

Sut i gysylltu ag AGIC

Trwy'r post

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Trwy e-bost

agic@llyw.cymru

Trwy ffôn

0300 062 8163